

## ATODIAD 2

### ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

#### Polisi Cludiant Ôl-16

##### 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Owen Owens

##### 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu. Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes, ayyb

Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Coleg Llandrillo/Menai  
Grwpiau Ffocws dysgwyr/myfyrwyr Coleg Llandrillo/Menai safleoedd Bangor, Pwllheli a Dolgellau  
Penaethiaid ysgolion uwchradd  
Uned Gludiant Integredig Cyngor Gwynedd  
Galw Gwynedd

##### 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Hydref 2013

##### 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

16 Chwefror 2016 (adroddiad yn mynd ger bron y Cabinet)

##### 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae'r newidiadau yn y Polisi Cludiant ôl-16 yn ymateb i'r argymhellion canlynol o adroddiad yr ymchwiliad craffu:

- Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr.
- Dylid, ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu, gosod un pris i bawb.
- Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb.
- Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd.

## ATODIAD 2

### 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi/gwasanaeth/swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Ymgynghorwyd yn eang wrth gynnal yr ymchwiliad craffu a arweiniodd at lunio'r argymhellion uchod. Cyfwelwyd y canlynol:

- Aelodau Cabinet,
- Swyddogion perthnasol y Cyngor
- Penaethiaid tair Ysgol Uwchradd
- Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Coleg Menai Bangor
- Rheolydd Ardal Gyrfa Cymru
- Tri Grŵp Ffocws efo dysgwyr/myfyrwyr - safle Coleg Menai Bangor, Coleg Meirion Dwyfor safle Pwllheli a safle Coleg Meirion Dolgellau
- Pobl ifanc di-waith gan ddefnyddio holiadur a chefnogaeth Swyddfa Gyrfa Porthmadog
- Casglwyd barn llais pobl ifanc, rhieni a'u teuluoedd gyda chefnogaeth Clywed
- Holiaduron ar lein – ar gyfer myfyrwyr (cwblhawyd 21 holiadur ar lein) ac un arall ar gyfer teuluoedd myfyrwyr (cwblhawyd 32 holiadur ar lein)

Yn ogystal, ystyriwyd a dadansoddwyd cofnodion cwynion / sylwadau mae Galw Gwynedd yn derbyn ar ran y Gwasanaeth.

### 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro, ar ymgynghori, sylwadau staff, ayyb

Rhoddwyd ystyriaeth i ystod eang o dystiolaeth yn yr ymchwiliad craffu gan gynnwys penodau penodol ar:

- Cyd-destun Cenedlaethol
- Cyd-destun Lleol
- Cymariaethau gydag Awdurdodau Cymru

### 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn dystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Does dim bylchau penodol mewn dystiolaeth wedi'u hadnabod.

## ATODIAD 2

### 9) PERTHASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

#### 9a)

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	Perthnasedd	Yr effaith wirioneddol neu debygol
Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Dim	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Oes	Bydd codi £100 y tymor am docyn teithio yn effeithio fwyaf ar deuluoedd sydd dim ond ychydig dros yr hicyn incwm fyddai'n golygu bod eu plant yn gymwys i dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) o £30 yr wythnos
Meithrin perthnasau da	Negyddol	Ni fydd modd talu £60 am docyn (fel sydd yn gyfredol). Bydd hyn yn achosi drwg deimlad.

## ATODIAD 2

9b)

Nodweddion	Perthnasedd	Yr effaith wirioneddol neu debygol
Hil	Nac ydi	
Anabledd	Ydi	Mae cartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt yn fwy tebygol o fod yn dlawd ac felly yn fwy tebygol o gael eu heffeithio.
Rhyw	Nac ydi	
Ailbennu rhywedd	Nac ydi	
Cyfeiriadedd rhywiol	Nac ydi	
Crefydd neu gred	Nac ydi	
Yr iaith Gymraeg	Nac ydi	
Oedran	Ydi	Mae'r polisi yn effeithio disgyblion/myfyrwyr ôl-16 a'u teuluoedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Nac ydi	
Priodas a phartneriaeth sifil	Nac ydi	

## ATODIAD 2

### 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

a)	<p><b>Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)</b></p> <p>Bydd newid y polisi yn golygu cost uwch i'r mwyafrif o ddisgyblion/myfyrwyr ac yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd sydd ag incwm dim ond ychydig dros yr hicyn fyddai'n golygu bod eu plant yn gymwys i dderbyn i Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30 yr wythnos. Mae cartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt yn fwy tebygol o fod yn dlawd ac felly yn fwy tebygol o gael eu heffeithio.</p>
b)	<p><b>Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?</b></p> <p>Mae'r Adran Addysg yn cyflwyno cynllun lle gellir talu am y tocyn mewn rhandaliadau misol (yn hytrach na gorfod talu'r cyfan fel un swm cyn derbyn tocyn).</p>
c)	<p><b>A oes angen ail-ystyried y cynllun?</b></p> <p>Na.</p>

### 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er bod yr asesiad uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

Bydd cofnodion cwynion / sylwadau mae Galw Gwynedd yn derbyn ar ran y Gwasanaeth yn cael eu dadansoddi er mwyn tynnu allan unrhyw gyfeiriad at faterion cydraddoldeb.

### 12) PENDERFYNU

Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 16 Chwefror, 2016.